FOOTHOLD CYMRU

NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP

# Volunteens: Be Heard. Be Helpful.

## Adnodd i Athrawon

WcVA CGGC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Gwirfoddoli Cymru Volunteering Wales

# Cynnwys


Beth yw hwn? 3

Beth yw gwirfoddoli? 4

Pam fod gwirfoddolwyr ifanc mor bwysig? 6

Manteision gwirfoddolwyr ifanc 7

Beth oedd Volunteens: Be Heard. Be Helpful. 9

Llwyddiannau 11

Pam fod hyn yn bwysig i'r sector addysg? 12

Sgiliau byw pwysig 13

Sut allwn ni wneud iddo weithio? Camau ymarferol 14

Adnoddau eraill gan Volunteens 16

# Beth yw hwn?

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Foothold Cymru wedi bod yn rhedeg prosiect o'r enw Volunteens: Be Heard. Be Helpful a oedd yn seiliedig ar annog pobl ifanc i wirfoddoli.

Fel rhan o'r prosiect, roedd y bobl ifanc dan sylw wedi helpu i gydgynhyrchu nifer o adnoddau. Hwn yw ein Adnodd i Athrawon ar gyfer y Sector Addysg; bydd yn helpu i ddangos pwysigrwydd gwirfoddoli o fewn y cwricwlwm ysgol newydd.





# Beth yw gwirfoddoli?

Mae Gwirfoddoli Cymru yn diffinio gwirfoddoli fel:

***"Pan fyddwch yn dewis rhoi eich amser ac egni i fod o fudd i bobl eraill heb gael eich talu."***

Pan ofynnon ni i bobl ifanc beth oedden nhw'n meddwl oedd gwirfoddoli, roedden nhw'n aml yn dweud eu bod wedi 'Clywed y gair' ond heb wybod beth oedd yn 'Cyfrif'. Roedd eu diffiniadau nhw'n cynnwys:

- Helpu eraill
- Gweithred anhunanol
- Symud allan o'ch parth cysur
- Rhoi i eraill
- Helpu pobl o garedigrwydd eich calon



At ddibenion yr adnodd hwn, a'r prosiect ehangach, byddwn yn defnyddio un o'r diffiniadau a ddaeth gan berson ifanc:

***"Gwirfoddoli yw cynnig eich hun heb unrhyw gymhelliad ar wahân i helpu pobl heb ddisgwyl dim mwy na 'Diolch' – gwneud dim ond oherwydd y gallwch chi, nid oherwydd bod gofyn i chi neu fod yn rhaid i chi."***







# Pam fod gwirfoddolwyr ifanc mor bwysig?

Dywed Llywodraeth Cymru mai dim ond 24% o bobl ifanc sy'n ymwneud ag unrhyw fath o wirfoddoli yng Nghymru; nifer sy'n lleihau bob blwyddyn – nid dim ond ar gyfer pobl ifanc ond ar draws pob grŵp oedran.

Ac eto mae gwirfoddoli'n anhygoel o bwysig gan elwa:

- Pobl ifanc yn uniongyrchol
- Elusennau a sefydliadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ifanc
- Y lleoliadau addysg y daw'r pobl ifanc ohonynt



# Manteision gwirfoddolwyr ifanc



## Lleoliadau addysg

- Cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd
- Gwella enw da ysgolion
- Cysylltu ysgolion â sefydliadau eraill
- Cefnogi cynnal gweithgareddau allgyrsiol (e.e. Gwobr Dug Caeredin)
- Helpu i ddatblygu pobl ifanc ac oedolion ifanc mwy cyflawn a medrus
- Cefnogi pobl ifanc i ystyried eu dewisiadau ar ôl ysgol



## Lleoliadau gwirfoddol / cymunedol

- Syniadau a safbwyntiau newydd
- Cynyddu creadigrwydd, egni a brwdfrydedd
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwaith ymysg eu cyfoedion
- Helpu i recriwtio mwy o wirfoddolwyr
- Cynnig cymorth gydag elfennau digidol neu wedi'u seilio ar gyfryngau cymdeithasol
- Helpu i addasu dulliau cyfathrebu ac adnoddau i fod yn fwy cyfeillgar i bobl ifanc

# Pobl ifanc

- Datblygu sgiliau
- Adeiladu cymeriad
- Datblygu perthynas a all 'agor y drws' i gyfleoedd hirdymor yn y dyfodol
- Cyfle i ‘Flasu’ neu 'Roi cynnig' ar rôl neu sector cyn penderfynu
- Adeiladu eu CV ac yn cefnogi cais prifysgol neu goleg
- Teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain – "... Mae'n rhoi teimlad cynnes, braf i chi"
- Cefnogi iechyd meddwl drwy dynnu sylw, eu cysylltu ag eraill a chefnogi eraill a’u hanghenion eu hanghenion
- Mwy o werthfawrogiad o'u cymuned
- Teimlad o falchder yn eu cyflawniad ac yn eu cymuned



# Beth oedd Volunteens: Be Heard. Be Helpful?

Roedd y prosiect hwn yn rhan o Rownd 2 y Grant Gwirfoddoli Strategol. Fe'i ariannwyd am flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a’i weinyddu drwy CGGC a Gwirfoddoli yng Nghymru. Cynhaliwyd y prosiect rhwng Hydref 2022 a Medi 2023.

Cymerodd pobl ifanc yr awenau o'r cychwyn cyntaf, gan roi'r enw 'Volunteens' ar y prosiect.





## Nod Volunteens oedd:

- Ymgysylltu â phobl ifanc mewn sgyrsiau yn ymwneud â gwirfoddoli
- Nodi sut i ymgysylltu, datblygu ac adnabod gwirfoddolwyr ifanc
- Sut y gallai'r trydydd sector recriwtio gwirfoddolwyr ifanc
- Dangos sut y gellir ymgorffori gwirfoddoli a chyfoethogi'r cwricwlwm cenedlaethol newydd



## Yn ystod y flwyddyn:

Cymerodd dros 200 o bobl ifanc o bob rhan o Sir Gâr ran yn Volunteens, gan gynnwys:

- Ymgynghoriadau
- Sesiynau blasu i ddeall yn well beth yw gwirfoddoli a beth nad yw e
- Creu adnoddau: ffilmiau, pecyn cymorth dwyieithog ar gyfer y trydydd sector; darn ffasiwn gweledol a'r adnodd hwn i athrawon

Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys grŵp llywio o weithwyr proffesiynol gan gynnwys cynrychiolwyr ysgolion, sefydliadau'r trydydd sector, sefydliadau statudol a grwpiau ffydd.

# Llwyddiannau

## Llwyddiannau hunangofnodedig:

- Dywedodd 99% o bobl ifanc eu bod wedi dysgu o leiaf un sgil yn y prosiect (ar gyfartaledd, nododd pobl ifanc naw sgil)
- Dywedodd 88% eu bod wedi cynnal neu wella lefel eu ymwybyddiaeth am faterion lleol
- Dywedodd 85% eu bod yn teimlo gwell pwrpas
- 73% yn awyddus i wirfoddoli eto



## Adborth anecdotaidd:

Darparodd staff ysgol yr adborth canlynol:

- Roedd rhai pobl ifanc wedi mynd ati i chwilio am ragor o gyfleoedd gwirfoddoli ac wedi nodi Volunteens fel eu cymhelliant
- Mae pobl ifanc eraill wedi bod yn amlwg yn fwy hyderus nag o'r blaen
- Mae llawer o bobl ifanc yn fwy gwybodus am wirfoddoli
- Mae llawer o bobl ifanc wedi bod yn cynnig eu hunain fwy mewn timau ac ar gyfer rolau arwain
- Mae rhai pobl ifanc wedi dod yn fwy pendant, yn enwedig wrth gyfathrebu

# Pam fod hyn yn bwysig i'r sector addysg?

## Dinasyddion moesegol, gwybodus:


Trwy Volunteens roedd pobl ifanc yn gallu:

- Nodi a gwerthuso materion yn ymwneud â gwirfoddoli
- Llunio safbwyntiau mwy cadarnhaol am eu dyfodol
- Archwilio'r effaith y mae eu gwirfoddoli yn ei gael ar raddfa ehangach
- Gwella enw da a lleihau'r stigma o amgylch pobl ifanc
- Cynyddu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth eu hunain am eu diwylliant, cymuned a chymdeithas

## Unigolion iach, gwybodus:

Trwy Volunteens, cafodd pobl ifanc gyfle i:

- Wella eu lles meddyliol ac emosiynol
- Datblygu hyder
- Adeiladu ymddiriedaeth a pharch ar draws cenedlaethau
- Nodi a goresgyn heriau
- Datblygu sgiliau
- Gwella eu opsiynau am y dyfodol a'u dyheadau gyrfa







# Sgiliau bywyd pwysig

## Sgiliau creadigrwydd ac arloesi:

Mae'r sgil bywyd hwn yn cynnwys y cyfle i "Archwilio, cyfathrebu, creu cynlluniau a dod o hyd i atebion".

O fewn Volunteens, gallai pobl ifanc:

- Archwilio gwirfoddoli drwy ddiwrnodau blasu
- Creu cynlluniau ar gyfer gwirfoddoli eu hunain nawr ac yn y dyfodol
- Dod o hyd i atebion i broblemau a gododd yn ystod y sesiynau blasu

## Effeithiolrwydd personol:

Mae'r sgil bywyd hwn yn cynnwys y cyfle i “fagu hyder, dod yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau cymdeithasol, diwylliannol a moesegol a dysgu o'u camgymeriadau".

Trwy Volunteens, roedd pobl ifanc yn gallu:

- Cwrdd a rhyngweithio â phobl newydd o wahanol gefndiroedd, cynyddu eu hyder, a’u hymwybyddiaeth cymdeithasol a diwylliannol
- Dysgu am faterion cymdeithasol amrywiol yn eu hardal leol drwy'r sesiynau blasu
- Datblygu a dysgu o gamgymeriadau yn ystod y diwrnod blasu

## Sgiliau meddwl beirniadol a datrys problemau:

Mae'r sgil bywyd hwn yn cynnwys y cyfle i “holi cwestiynau am y dystiolaeth, gwneud penderfyniadau a datrys problemau".

Trwy Volunteens, roedd pobl ifanc yn gallu:

- Holi cwestiynau yn ystod y sesiynau blasu
- Goresgyn anawsterau amrywiol a gododd yn ystod y diwrnod blasu megis cynhwysion cyfyngedig, gweithio mewn tîm a datrys gwrthdaro
- Gwneud penderfyniadau am gyfleoedd gwirfoddoli pellach

## Sgiliau cynllunio a threfnu:

Mae'r sgil bywyd hwn yn cynnwys y cyfle i "Reoli eu hamser, gosod nodau, gwneud penderfyniadau a gwirio eu gwaith".

Trwy Volunteens, roedd pobl ifanc yn gallu:

- Ystyried gwirfoddoli annibynnol
- Rheoli eu hamser i gyrraedd yn brydlon a chyflawni tasgau yn gywir.
- Gosod a rhagori ar nodau ar y sesiwn flasu

# Sut allwn ni wneud iddo weithio? Camau ymarferol

Nawr eich bod wedi cael gwybod am y prosiect; clywed lleisiau pobl ifanc a gweld sut mae'n cysylltu â'r Cwricwlwm Cenedlaethol, dyma rai camau ymarferol y gallwch eu cymryd i gefnogi mwy o bobl ifanc i wirfoddoli.

## Cefnogaeth cyn gwirfoddoli:

- Adeiladu hyder drwy gefnogaeth fugeiliol ac anogaeth parhaus
- Datblygu sgiliau allweddol fel cyfathrebu ac arwain drwy weithgareddau ysgol bob dydd
- Cefnogaeth i adnabod cyfleoedd gwirfoddoli a dysgu am y rolau yn fanwl
- Cysylltu â sefydliadau sydd ar gael yn lleol a chysylltu â Chydlynwyr Gwirfoddoli (lle bo'n bosibl)
- Ymarfer cyfweliad gyda phobl ifanc, i'w helpu i ddatblygu sgiliau a magu hyder
- Cysylltu pobl ifanc â lleoliadau gwirfoddoli posibl a chynorthwyo gyda sgyrsiau cychwynnol â darparwyr



## Cefnogaeth yn ystod y gwirfoddoli:

- Helpu gyda chyfathrebu
- Darparu lle diogel i drafod unrhyw faterion

## Camau ychwanegol:

- Cymryd pobl ifanc o ddifrif
- Cefnogaeth fugeiliol barhaus o'r dechrau i'r diwedd
- Ystyriwch yr ymrwymiadau amser ar gyfer gwirfoddoli a'r effaith ar feysydd eraill (gwaith cartref / mynychu clybiau ar ôl ysgol ayb)
- Os yn bosibl, cymorth gyda chostau cludo a bwyd (darpariaeth prydau ysgol am ddim)
- Siaradwch â sefydliadau lleol i gael gwybod beth maen nhw'n ei wneud a'i ddarparu

## Cefnogaeth wedi gwirfoddoli:

- Gweithdai ysgrifennu CV
- Nodi opsiynau gwirfoddoli pellach
- Cydnabod llwyddiant pobl ifanc



# Adnoddau eraill gan Volunteens:

Mae'r adnodd i athrawon hwn yn un o'r adnoddau a grëwyd i gefnogi pobl ifanc i gyfleoedd gwirfoddoli.

Yn ystod y prosiect mae pobl ifanc wedi helpu i gydgynhyrchu adnoddau eraill sydd ar gael gan gynnwys:

- Ffilm fer wedi'i chyd-ddylunio gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, wedi'i hanelu at ddarparu mwy o wybodaeth ar wirfoddoli
- Pecyn cymorth ar gyfer y Trydydd Sector, yn eu cynorthwyo i wella eu gallu i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr ifanc




Rydym hefyd wedi cael y prosiect cyfan Adolygwyd y prosiect cyfan yn allanol hefyd gan Strategic Research and Insight Ltd sydd wedi darparu adborth pwysig fydd yn cefnogi ac yn llywio ein prosiectau yn y dyfodol.

Os yw hwn, neu unrhyw un o'n hadnoddau wedi bod yn ddefnyddiol, rhowch wybod i ni!

**kelly@footholdcymru.org.uk**